# Bro Morgannwg

# Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr

# Gwanwyn 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.

# **Hyfforddiant** Gorfodol i Lywodraethwyr Newydd

## Sefydlu llywodraethwyr newydd: rolau a chyfrifoldebau'r llywodraethwyr - 'adnabod fy ysgol'

Mae'r modiwl gorfodol diwygiedig hwn wedi'i anelu at lywodraethwyr newydd a rhaid ei gwblhau o fewn blwyddyn gyntaf y penodiad. Bydd yn helpu llywodraethwyr newydd i ennill y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i ddechrau cyflawni eu rol yn effeithiol i gefnogi eu hysgol i godi safonau. Bydd y modiwl hwn yn canolbwyntio ar:

- sut mae gweledigaeth yr ysgol yn siapio gwerthoedd ar draws cymuned yr ysgol ac yn sbarduno diwylliant o ddisgwyliadau uchel
- rolau a chyfrifoldebau allweddol llywodraethwyr
- cyfansoddiad cyrff llywodraethu a sut maent yn gweithio
- herio a chefnogi effeithiol



## **Rôl data wrth gefnogi hunanwerthuso a gwella mewn ysgolion** – 'yr hyn y mae angen i lywodraethwyr ei wybod a pham'

Nod y modiwl gorfodol wedi'i ddiweddaru hwn ar gyfer llywodraethwyr newydd yw datblygu dealltwriaeth o gynnydd ysgolion a data perfformiad. Mae’r sesiwn yn archwilio:

- y mathau o ddata a ddefnyddir gan ysgolion a’r rôl y mae data’n ei chwarae wrth wella ysgolion
- sut y gall llywodraethwyr ddefnyddio data i herio a chefnogi’r ysgol i wella
- sut mae Llywodraethwyr yn atebol am y cynnydd a wneir gan bob grŵp o ddysgwyr a sut mae’r data hwn yn cael ei gasglu a’i ddefnyddio gan eu hysgolion
- y mathau o gwestiynau y gall llywodraethwyr eu gofyn am ddata eu hysgolion eu hunain.

**Gwanwyn 2024**

**Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr**

**Bro Morgannwg**

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

# Hyfforddiant Llywodraethwyr

# Tymor y Gwanwyn 2024

## Diogelu: 'deall a hyrwyddo diwylliant o wyliadwriaeth'

Mae'r modiwl dewisol hwn yn sail i hyfforddiant pwysig gan yr ALl ac yn helpu llywodraethwyr i gydnabod eu rôl wrth hyrwyddo diwylliant o wyliadwriaeth yn eu hysgolion. Bydd y sesiwn yn helpu llywodraethwyr i ddeall:

- eu rôl wrth fonitro a hyrwyddo diogelu ar draws cymuned yr ysgol
- sut i gydymffurfio: polisïau a chadw cofnodion
- sut i greu diwylliant diogel ac iach sy'n cynnwys llais disgyblion a staff
- y sbectrwm o ddiogelu a diogelwch ar-lein.

## Galluogi tegwch a rhagoriaeth: 'dyheadau uchel i bawb'

Nod y sesiwn hon yw datblygu eich dealltwriaeth o pam mae tegwch, rhagoriaeth a lles yn hanfodol i sicrhau dyheadau uchel ar gyfer pob dysgwr. Byddwch yn dechrau:

- adnabod rhwystrau i ddysgu a chyfleoedd i godi dyheadau pob dysgwr
- cydnabod yr amrywiaeth o grwpiau agored i niwed a'r angen i fonitro eu cynnydd yn drylwyr
- deall goblygiadau ac effaith Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn ysgolion a sut mae hyn yn cyfrannu at system decach i bawb.

## Sefydlu Cadeirydd Newydd

Mae hwn yn gwrs gorfodol ar gyfer cadeiryddion llywodraethwyr newydd.  Bydd yn sicrhau bod y cadeirydd yn meddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i ddechrau cyflawni ei rôl yn effeithiol i gefnogi ei ysgol i godi safonau a chyflawni ei swyddogaethau statudol.   Mae'r rhaglen yn darparu cyflwyniad ar:

- rôl a sgiliau'r cadeirydd
- perthnasoedd allweddol
- sut i fod yn llywodraethwr effeithiol.

Mae'r sesiwn hon hefyd yn gyfle i chi ofyn unrhyw gwestiynau sy'n codi o'r hyfforddiant, eich rôl fel cadeirydd ac i rannu eich profiadau hyd yn hyn.

## Rheoli Perfformiad y Pennaeth

Mae'r sesiwn hon wedi'i hanelu at lywodraethwyr sy'n aelodau o banel rheoli perfformiad y Pennaeth a bydd yn eich helpu i ddeall a gweithredu gofynion y rheoliadau ar gyfer rheoli perfformiad y Pennaeth.   Bydd y sesiynau'n canolbwyntio ar:

- rôl rheoli perfformiad y Pennaeth wrth godi safonau mewn ysgolion
- sut mae rheoli perfformiad y Pennaeth yn cael ei ymgorffori yng nghyd-destun eang proses wella'r ysgol
- amlinellu gweithdrefn rheoli perfformiad y Pennaeth gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau'r rheini sy'n gysylltiedig
- datblygu ymwybyddiaeth o'r safonau arweinyddiaeth a'u defnydd mewn rheoli perfformiad.

## Cefnogi eich ysgol trwy arolygiad

Nod y sesiwn hon yw cefnogi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Llywodraethwyr i rannu gwaith eu hysgol yn effeithiol ar gyfer arolwg.  Bydd yn esbonio'r broses arolygu, rôl llywodraethwyr yn y broses a rhai o'r themâu sy'n dod i'r amlwg o adroddiadau.

Bydd y sesiwn yn rhyngweithiol gyda chyfle i wrando a siarad ag arweinwyr rhanbarthol llywodraethu am eu profiadau yn ystod arolygiadau diweddar; bydd hefyd yn ofynnol i gyfranogwyr ymgysylltu â deunyddiau cyn-ddarllen a myfyrio a fydd yn cael eu rhannu cyn y sesiwn.

## Sesiynau Galw Heibio - Y Cwricwlwm

Byddwn yn cynnal dwy sesiwn galw heibio lle bydd aelodau o'r tîm cwricwlwm ar gael i ateb unrhyw gwestiynau neu gynnig cefnogaeth ynghylch y cwricwlwm, addysgu ac asesu. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch maes penodol o'r cwricwlwm, efallai y byddwch am e-bostio'r rhain o flaen llaw er mwyn sicrhau bod aelodau arbenigol y tîm ar gael yn ystod y sesiwn.

## Sesiynau Galw Heibio – Adroddiad Cryno Ysgol

Mae Adroddiad Cryno Ysgol (ACY) yn rhoi crynodeb ddwywaith y flwyddyn o'r wybodaeth sydd gan Gonsortiwm Canolbarth y De ar ysgol i gyrff llywodraethu. Bwriedir i'r adroddiad gefnogi Llywodraethwyr gyda'u gwybodaeth o'r ysgol gan ddarparu arweiniad hefyd ar y meysydd y gallan nhw ofyn mwy o gwestiynau amdanynt er mwyn cael mewnwelediad pellach.

Byddwn yn cynnal dwy sesiwn galw heibio lle bydd Prif Bartneriaid Gwella ar gael i ateb unrhyw gwestiynau neu gynnig cefnogaeth ynghylch sut I ddefnyddio'r ACY yn effeithiol i gefnogi gwella ysgolion.

## Gwahardd Disgyblion

Bydd y cwrs hwn yn rhoi cyflwyniad i esbonio'r dulliau o reoli gwaharddiadau a rhoi trosolwg ar weithdrefnau perthnasol. Ei nod yw codi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth yn y maes hwn megis Deddf Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, nodweddion gwarchodedig a chyfraith gwahaniaethu ar sail anabledd a chamau ataliol a rhagweithiol y gellir eu cymryd i atal gwaharddiadau. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar rôl y corff llywodraethu o ran rheoli gwaharddiadau, gan ganolbwyntio ar gyfarfodydd Pwyllgor Disgyblu Disgyblion, felly bydd yn arbennig o ddefnyddiol i'r llywodraethwyr hynny ar bwyllgorau disgyblu a gwahardd disgyblion ac unrhyw lywodraethwyr sydd â diddordeb yn y maes hwn.

## Presenoldeb

Nod y sesiwn hon yw cefnogi llywodraethwyr i wybod sut i gefnogi dulliau ysgolion ac ALl i annog presenoldeb ac ymgysylltiad cadarnhaol. Bydd yn edrych ar gosbau a chefnogaeth i'r rheini nad ydynt yn mynychu a'r cysylltiad ag anghenion iechyd meddwl posib sy'n gysylltiedig â mynychwyr pryderus ac sydd â ffobia a sut mae ysgolion a'r ALl yn cefnogi'r anghenion hyn. Bydd yn ymdrin â'r croestoriad â meysydd eraill fel RhCBau a materion ADY a bydd yn edrych ar lwybrau atgyfeirio ac yn cyfeirio at y rhain ac adnoddau. Caiff llywodraethwyr eu cefnogi gyda gwybodaeth am bolisïau a chanllawiau gan gynnwys diweddariadau Llywodraeth Cymru i'w galluogi i weithredu fel cyfeillion beirniadol o ran cefnogi eu UDA gyda sicrwydd ansawdd ac archwilio yn y maes hwn.

## Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae hwn yn drosolwg addysgol o Blant sy'n Derbyn Gofal. Nod y sesiwn yw galluogi llywodraethwyr i fod yn Rhieni Corfforaethol gweithredol a chlywed llais y plentyn. Mae'r sesiwn yn amlinellu strategaethau i hyrwyddo cyflawniad a lles Plant sy'n Derbyn Gofal.

## Llywodraethu Gwybodaeth

Mae'r cwrs wedi'i anelu at bob Llywodraethwr oherwydd bod Llywodraethu Gwybodaeth yn effeithio ar sawl agwedd ar waith o fewn ysgol. Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y Ddeddf Diogelu Data a'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf, bydd hyn yn cynnwys ystyried trefniadau llywodraethu, trin a rhannu data personol, materion yn ymwneud â cheisiadau gwrthrych am wybodaeth, ystyriaethau ynghylch tor diogelwch data, a fydd yn cynnwys yn fyr, ystyried materion o fath seiberddiogelwch a cheisiadau eraill am wybodaeth fel y rheini o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Nod y cwrs yw darparu trosolwg yn y meysydd hyn i sicrhau bod Llywodraethwyr yn ymwybodol o rwymedigaethau yn y meysydd hyn. Mae'r maes hwn yn cael ei reoleiddio gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac mae ganddynt bwerau eang. Maent yn disgwyl i atebolrwydd fod yn dryloyw ac yn amlwg ar lefelau uwch pob sefydliad. Maent hefyd yn disgwyl i hyfforddiant Diogelu Data gael ei gynnal o leiaf bob dwy flynedd. Mae Cyngor Bro Morgannwg o'r farn y dylai hyfforddiant gael ei gynnal yn flynyddol. Ar hyn o bryd, mae'r ffordd y caiff gwybodaeth bersonol ei rhannu, ei defnyddio a'i storio yn newid ac mae llawer o newidiadau yn digwydd yn y maes hon yn rheolaidd.

## Llywodraethwr Diogelu Dynodedig (LlDDau)

Mae'r cwrs hwn ar gyfer Llywodraethwyr Diogelu Dynodedig (LlDDau) yn unig ac mae'n cwmpasu disgwyliad y rôl, yn darparu dealltwriaeth o'r Pecyn Cymorth Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (CDDd) ac yn nodi sut i ddangos tystiolaeth o atebolrwydd i Estyn o ran ansawdd ac effeithiolrwydd pa mor ddiogel yw'r ysgol drwy ddiweddaru a gwella polisi a gweithdrefnau diogelu'r ysgol.

## Dileu Swyddi

Bydd y cwrs hwn yn cwmpasu rôl y corff llywodraethu o fewn y polisi Dileu Swyddi a argymhellir gan y Cyngor. Ei nod yw sicrhau bod llywodraethwyr yn hollol gyfarwydd â'r polisi a'r gweithdrefnau Dileu Swyddi a argymhellir. Mae'n arbennig o berthnasol i lywodraethwyr sy'n aelodau o'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff a'r pwyllgor apeliadau disgyblu a diswyddo staff yn ogystal â'r pwyllgor cyllid.

## Cydraddoldeb

Mae hwn yn drosolwg o Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol mewn ysgolion. Y nod yw sicrhau bod llywodraethwyr yn fwy hyderus i hybu cydraddoldeb. Mae'r sesiwn yn cefnogi llywodraethwyr i wella cyfranogiad, ymgysylltu a chyfathrebu gyda grwpiau gwarchodedig. Amlinellir strategaethau i gefnogi plant a phobl ifanc i oresgyn rhwystrau, fel y gallant gyrraedd eu llawn botensial. Bydd y sesiwn hon hefyd yn cyfeirio at rôl Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llywodraeth Cymru a gellir gweld gwybodaeth amdani yma

## Bwyd mewn Ysgolion

- Cefndir
- Rôl CLlLC
- Cyflwyniad i ddyletswyddau cyrff llywodraethu
- Darparu bwyd a diod
- Hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach
- Adrodd i rieni
- Annog nifer y disgyblion sy’n derbyn prydau ysgol
- Diogelu hunaniaeth disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim
- Monitro Cydymffurfiaeth
- Adolygiad o'r Rheoliadau a’r Canllawiau Statudol

Nod y cwrs: erbyn diwedd y sesiwn hyfforddi hon, dylai llywodraethwyr ddeall beth yw eu dyletswyddau mewn perthynas â bwyta'n iach mewn ysgolion, sut i ymgymryd â'r dyletswyddau hyn a ble i gael cymorth pellach.

Hoffai CLlLC hefyd ddefnyddio'r sesiwn hyfforddi hon i gasglu mewnwelediadau ac adborth anffurfiol gan lywodraethwyr i lywio'r adolygiad sydd ar ddod o'r Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol.





Cofrestrwch ar gyfer cwrs neu gyrsiau trwy glicio ar y ddolen ffurflen archebu isod neu drwy sganio'r cod QR gyda chamera eich ffôn symudol a chliciwch yn y blwch sy'n ymddangos ar sgrin eich ffôn a fydd yn mynd â chi'n uniongyrchol i'n ffurflen archebu.

**Ffurflen Archebu Hyfforddiant Llywodraethwyr Bro Morgannwg Tymor y Gwanwyn 2024**

Neu sganiwch y cod QR isod gyda'ch ffôn symudol.

## Tîm Cefnogi Llywodraethwyr Bro Morgannwg


**John Sparks – Pennaeth Cymorth Llywodraethwyr**

jsparks@valeofglamorgan.gov.uk

01446 709106

**Uwch Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr**

fwright@valeofglamorgan.gov.uk

01446 709125

**Janine Hoare – Gweinyddwr Cefnogi Llywodraethwyr**

Jhoare@valeofglamorgan.gov.uk

01446 709107


Llywodrethwyr (valeofglamorgan.gov.uk)

**Gwanwyn 2024**

**Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr**

**Bro Morgannwg**

# Dyddiadau Hyfforddi

| Dyddiad | Amser | Sesiwn | CCD/ALl |
|---|---|---|---|
| Mercher, 24 Ion | 9.00-11.00am | Sesiwn galw heibio ar y cwricwlwm | CCD |
| Mawrth, 30 Ion | 5.30-7.30pm | Rheoli Perfformiad y Pennaeth | CCD |
| **Llun, 5 Chwef** | **1.00-3.00pm** | **Sefydlu (Cymraeg)** | **CCD** |
| **Mer, 7 Chwef** | **5.30-7.00pm** | **Dileu Swyddi** | **ALl** |
| Iau, 8 Chwef | 5.00-7.00pm | Sesiwn galw heibio ar y cwricwlwm | CCD |
| Gwen, 9 Chwef | 12.00pm-2.00pm | Sefydlu Cadeirydd newydd | CCD |
| **Llun, 12 Chwef** | **Wythnos hanner tymor** | | |
| **Llun, 19 Chwef** | **1.00-3.00pm** | **Data (Cymraeg)** | **CCD** |
| **Maw, 20 Chwef** | **10.00am-12.00pm** | **Sefydlu** | **CCD** |
| **Maw, 20 Chwef** | **5.30-7.30pm** | **Sefydlu** | **CCD** |
| **Mer, 21 Chwef** | **5.30-7.00pm** | **Gwahardd Disgyblion** | **ALl** |
| **Iau, 22 Chwef** | **1.00-3.00pm** | **Sefydlu** | **CCD** |
| Iau, 22 Chwef | 5.30-7.30pm | Sefydlu Cadeirydd newydd | CCD |
| **Llun, 26 Chwef** | **1.00-3.00pm** | **Diogelu (Cymraeg)** | **CCD** |
| Llun, 26 Chwef | 3.00-5.00pm | Sesiwn galw heibio ar Adroddiad Cryno Ysgol | CCD |
| **Maw 27 Chwef** | **1.00-3.00pm** | **Data** | **CCD** |
| **Maw 27 Chwef** | **5.30-7.30pm** | **Data** | **CCD** |
| **Mer, 28 Chwef** | **5.30-7.00pm** | **Bwyd mewn Ysgolion** | **ALl** |
| **Llun, 4 Mawrth** | **10.00am-12.00pm** | **Data** | **CCD** |
| **Llun, 4 Mawrth** | **1.00-3.00pm** | **Galluogi Tegwch a Rhagoriaeth (Cymraeg)** | **CCD** |
| Llun, 4 Mawrth | 4.00-6.00pm | Sesiwn galw heibio ar Adroddiad Cryno Ysgol | CCD |
| **Maw, 5 Mawrth** | **5.30-7.00pm** | **Presenoldeb** | **ALl** |
| Iau 7, Mawrth | 1.00-3.00pm | Sefydlu Cadeirydd newydd (Cymraeg) | CCD |
| Iau 7, Mawrth | 1.00-3.00pm | Rheoli Perfformiad y Pennaeth | CCD |
| **Iau 7, Mawrth** | **5.30-7.30pm** | **Diogelu** | **CCD** |
| **Llun, 11 Mawrth** | **1.00-3.00pm** | **Diogelu** | **CCD** |
| **Maw, 12 Mawrth** | **10.00am-12.00pm** | **Diogelu** | **CCD** |
| Mer, 13 Mawrth | 1.00-3.00pm | Cefnogi eich ysgol drwy arolygiad | CCD |
| Mer, 13 Mawrth | 5.30-7.30pm | Cefnogi eich ysgol drwy arolygiad | CCD |
| **Iau 14, Mawrth** | **5.30-7.00pm** | **Plant sy'n Derbyn Gofal** | **ALl** |
| **Llun, 18 Mawrth** | **5.30-7.30pm** | **Galluogi Tegwch a Rhagoriaeth** | **CCD** |
| **Maw, 19 Mawrth** | **1.00-3.00pm** | **Galluogi Tegwch a Rhagoriaeth** | **CCD** |
| **Maw, 19 Mawrth** | **5.30-7.00pm** | **Llywodraethu Gwybodaeth** | **ALl** |
| **Merch, 20 Mawrth** | **5.30-7.00pm** | **Llywodraethwr Diogelu Dynodedig (LlDDau)** | **ALl** |
| **Iau 21, Mawrth** | **10.00am-12.00pm** | **Galluogi Tegwch a Rhagoriaeth** | **CCD** |
| **Iau 21, Mawrth** | **5.30-7.00pm** | **Cydraddoldeb** | **ALl** |

**Gwanwyn 2024**

**Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr**

**Bro Morgannwg**